# Cynllun Cyhoeddi Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

*Dyma Gynllun Cyhoeddi Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys*

*Ein teitl a'n cyfeiriad llawn er mwyn anfon ceisiadau am unrhyw ddogfennau yw:*
*Ysgol Mynach, Pontarfynach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 4QZ*
*Ysgol Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, Ceredigion, SY25 6BL*
*Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3JX*

*Y sawl sy'n gyfrifol am gynnal y cynllun hwn yw: Mrs Joyce George (Pennaeth)*

## 1. Cyflwyniad: beth yw cynllun cyhoeddi a'r rheswm dros ei ddatblygu

Un o nodau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y cyfeirir ati fel DRhG yng ngweddill y ddogfen hon) yw y dylai awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys yr holl ysgolion a gynhelir, gymryd camau i egluro pa wybodaeth y byddant yn ei darparu i'r cyhoedd.

Er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni lunio cynllun cyhoeddi sy'n nodi:

- *Y dosbarthiadau gwybodaeth yr ydym yn eu cyhoeddi neu'n bwriadu eu cyhoeddi;*
- *Y ffordd y cyhoeddir y wybodaeth; ac*
- *A yw'r wybodaeth ar gael yn rhad ac am ddim neu a oes rhaid talu amdani.*

Mae'r cynllun yn delio â'r wybodaeth a gyhoeddwyd eisoes a gwybodaeth a gyhoeddir yn y dyfodol. Mae'r holl wybodaeth yn ein cynllun cyhoeddi ar gael ar bapur.

Efallai na ellir rhannu rhywfaint o'r wybodaeth sydd gennym gyda'r cyhoedd, er enghraifft gwybodaeth bersonol.

Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn cydymffurfio â'r cynllun model i ysgolion a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

## 2. Categorïau gwybodaeth a gyhoeddir

Mae'r cynllun cyhoeddi yn eich tywys i wybodaeth yr ydym yn ei chyhoeddi ar hyn o bryd (neu a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar) neu y byddwn yn ei chyhoeddi yn y dyfodol – rhennir y wybodaeth hon yn gategorïau gwybodaeth a elwir yn 'ddosbarthiadau'. Cynhwysir y rhain yn adran

5 y cynllun hwn. Trefnir y dosbarthiadau gwybodaeth y bwriadwn sicrhau eu bod ar gael, yn bedwar maes pwnc bras:

- *Prosbectws yr Ysgol* – **gwybodaeth a gyhoeddir ym mhrosbectws yr ysgol.**
- *Dogfennau Llywodraethwyr* – **gwybodaeth a gyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr ac mewn dogfennau eraill gan y corf llywodraethu.**
- *Disgyblion a Chwricwlwm* – **gwybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â disgyblion a chwricwlwm yr ysgol.**
- *Polisïau'r Ysgol* – **gwybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â'r ysgol yn gyffredinol.**

### 3. Sut i ofyn am wybodaeth

Gallwch ofyn i'r cyswllt a nodir isod am gopi o'r wybodaeth yr hoffech ei gweld.

Os nad yw'r wybodaeth yr hoffech ei gweld ar gael dan y cynllun, mae'n dal yn bosibl i chi holi a yw'r wybodaeth gennym. Gallwch gysylltu â'r ysgol dros y ffôn, e-bost neu trwy lythyr.

**Ysgol Mynach**
E-bost: **prif@mynach.ceredigion.sch.uk**
Ffôn: **01970 890234**
Cyfeiriad Cyswllt: ***Ysgol Mynach, Pontarfynach, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4QZ***

**Ysgol Pontrhydfendigaid**
E-bost: **prif@pontrhydfendigaid.ceredigion.sch.uk**
Ffôn: **01974 831641**
Cyfeiriad Cyswllt: ***Ysgol Pontrhydfendigaid. Ystrad Meurig, Ceredigion, SY25 6BL***

**Ysgol Syr John Rhys**
E-bost: **prif@syrjohnrhys.ceredigion.sch.uk**
Ffôn: **01970 890622**
Cyfeiriad Cyswllt: ***Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3JX***

I'n helpu i brosesu'ch cais yn gyflym, nodwch y geiriau **"CAIS DAN Y CYNLLUN CYHOEDDI"** (mewn **LLYTHRENNAU BRAS mewn print trwm**) yn eglur ar unrhyw ohebiaeth.

### 4. Talu am wybodaeth

Darperir copïau sengl o wybodaeth sydd o fewn cwmpas y cynllun cyhoeddi hwn yn rhad ac am ddim oni nodir fel arall. Os yw'ch cais yn golygu bod yn rhaid i ni wneud llawer o waith llungopïo neu argraffu, neu dalu llawer am bostio'r wybodaeth, neu os yw am eitem sydd â phris arni megis rhai cyhoeddiadau argraffedig neu fideos, byddwn yn eich hysbysu o'r gost cyn ymateb i'ch cais. Pan godir tâl am eitem benodol, nodir hyn yn y blychau yn Adran 5 gan arwydd £ yn dilyn y disgrifiad o'r eitem.

### 5. Dosbarthiadau Gwybodaeth a Gyhoeddir ar Hyn o Bryd

**Prosbectws yr Ysgol –** mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth a gyhoeddir ym mhrosbectws yr ysgol.

| Dosbarth | Disgrifiad |
|---|---|
| Prosbectws yr Ysgol | Mae cynnwys statudol prosbectws fel a ganlyn, (gall yr ysgol benderfynu cynnwys eitemau eraill yn ôl ei doethineb ei hun):<br>• enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr ysgol, a'r math o ysgol yw hi.<br>• enwau'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr.<br>• gwybodaeth am dderbyn disgyblion i'r ysgol.<br>• datganiad ynghylch ethos a gwerthoedd yr ysgol.<br>• manylion unrhyw gysylltiadau gyda chrefydd neu enwad crefyddol penodol, yr addysg grefyddol a ddarperir, hawl rhieni i dynnu eu plant o wersi addysg grefyddol ac o addoliad ar y cyd a'r ddarpariaeth amgen i'r disgyblion hynny.<br>• gwybodaeth am bolisi'r ysgol ynghylch darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, nifer y disgyblion ar y gofrestr a chyfraddau absenoldebau ymhlith disgyblion, y rhai a awdurdodwyd a'r rhai nas awdurdodwyd.<br>• canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnodau Allweddol priodol, ynghyd â ffigurau cryno cenedlaethol.<br>• Defnydd o'r Iaith Gymraeg.<br>• Canlyniadau TGAU/GNVQ yn yr ysgol, yn lleol ac yn genedlaethol [*Uwchradd yn unig*].<br>• crynodeb o ganlyniadau lefel Uwch/Uwch Gyfrannol TAG yn yr ysgol ac yn genedlaethol [*Uwchradd yn unig*].<br>• nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol eraill a'r canran sy'n eu hennill [*Uwchradd yn unig*].<br>• • cyrchfannau'r rhai sy'n gadael yr ysgol [*Uwchradd yn unig*]. |

**Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a gwybodaeth arall yn ymwneud â'r corff llywodraethu –** mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth a gyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr ac yn nogfennau eraill Cyrff Llywodraethu.

| Dosbarth | Disgrifiad |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr | Mae cynnwys statudol adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni fel a ganlyn, (gall yr ysgol gynnwys eitemau eraill hefyd yn ôl ei doethineb):<br>• manylion ynghylch aelodaeth y corff llywodraethu, gan gynnwys enw a chyfeiriad y cadeirydd a'r clerc.<br>• datganiad ynghylch y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu a luniwyd yn dilyn arolygiad.<br>• datganiad ariannol, gan gynnwys rhoddion a gafodd yr ysgol a symiau a dalwyd i'r llywodraethwyr fel treuliau.<br>• gwybodaeth am ddiogelwch yn yr ysgol.<br>• gwybodaeth am weithredu polisi'r corff llywodraethu ynghylch disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac unrhyw newidiadau i'r polisi dros y flwyddyn ddiwethaf.<br>• disgrifiad o'r trefniadau i gynnig lle i ddisgyblion sydd ag anableddau; manylion camau a gymerwyd i atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill; a manylion cyfleusterau presennol i gynorthwyo disgyblion sydd ag anableddau i gael mynediad i'r ysgol.<br>• y cynllun mynediad sy'n ymwneud ag ehangu mynediad i'r rhai sydd ag anableddau i'r ysgol yn y dyfodol (o fis Ebrill 2004).<br>• sut y mae datblygiad proffesiynol athrawon yn effeithio ar addysgu a dysgu.<br>• nifer y disgyblion ar y gofrestr a chyfraddau'r absenoldebau a awdurdodwyd a'r rhai nas awdurdodwyd ymhlith disgyblion.<br>• canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnodau |

| | |
|---|---|
| | Allweddol priodol, ynghyd â ffigurau cryno cenedlaethol.<br>• targedau'r ysgol ar gyfer asesiadau Cyfnod Allweddol 2/Cyfnod Allweddol 3 [*Cynradd ac Uwchradd*].<br>• targedau'r ysgol ar gyfer arholiadau cyhoeddus yng Nghyfnod Allweddol 4 [*Uwchradd yn unig*].<br>• canlyniadau TGAU/GNVQ yn yr ysgol, yn lleol ac yn genedlaethol [*Uwchradd yn unig*].<br>• canlyniadau cymwysterau galwedigaethol a Safon Uwch/Uwch Gyfrannol TAG yn yr ysgol ac yn genedlaethol [*Uwchradd yn unig*].<br>• nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol eraill a'r canran sy'n eu hennill [*Uwchradd yn unig*].<br>• Cyrchfannau'r rhai sy'n gadael yr ysgol [*Uwchradd yn unig*]. |
| Offeryn Llywodraethu | • Enw'r ysgol.<br>• Categori'r ysgol.<br>• Enw'r corff llywodraethu.<br>• Y ffordd y cyfansoddwyd y corff llywodraethu.<br>• Enw unrhyw un y mae ganddo/ganddi yr hawl i benodi unrhyw gategori o lywodraethwr.<br>• Manylion unrhyw ymddiriedolaeth.<br>• Os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol, disgrifiad o ethos yr ysgol.<br>• Y dyddiad y daw'r offeryn i rym. |
| **Cofnodion [1] cyfarfod y Corff Llywodraethu a'i bwyllgorau** | Cofnodion cyfarfodydd pwyllgor a bwrdd y llywodraethwyr |

[1] Gall rhywfaint o'r wybodaeth fod yn gyfrinachol neu wedi ei heithrio o'r cyhoeddiad yn unol â'r gyfraith am reswm arall – felly, ni allwn gyhoeddi hwn

**Polisïau Disgyblion a Chwricwlwm –** mae'r adran hon yn rhoi mynediad i wybodaeth ynghylch polisïau sy'n ymwneud â disgyblion a chwricwlwm yr ysgol.

| Dosbarth | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cytundeb rhwng yr ysgol a'r cartref** | Datganiad ysgrifenedig o nodau a gwerthoedd yr ysgol, cyfrifoldebau'r ysgol, cyfrifoldebau'r rhieni a disgwyliadau'r ysgol o'i ddisgyblion, er enghraifft trefniadau gwaith cartref. |
| **Polisi Cwricwlwm** | Datganiad ynghylch dilyn y polisi ar gyfer pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, gan gynnwys unrhyw faes llafur a ddilynir gan ddisgyblion yn yr ysgol. |
| **Polisi Addysg Rhyw** | Datganiad ysgrifenedig o'r polisi'n ymwneud ag addysg rhyw. |
| **Addoli ar y Cyd** | Datganiad o'r trefniadau ar gyfer y weithred ddyddiol ofynnol o addoli ar y cyd. |
| **Disgyblu Disgyblion** | Datganiad ysgrifenedig o'r egwyddorion cyffredinol ynghylch ymddygiad a disgyblaeth gan gynnwys unrhyw bolisi gwrth-fwlio pan fo hynny'n briodol. |
| **Addysg [Uwchradd yn unig]** | Datganiad o raglenni addysg gyrfaoedd a ddarperir yng **Gyrfaoedd** Nghyfnod Allweddol 4. |

**Polisïau'r Ysgol –** Mae'r adran hon yn rhoi mynediad i wybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â'r ysgol yn gyffredinol.

| **Dosbarth** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **Adroddiadau** | Adroddiad am arolygiad o'r ysgol a'r crynodeb o'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| **Arolygiadau Ysgol Estyn o dan Adrannau 10 a 23 Deddf Arolygu Ysgolion 1996** | |
| **Cynllun gweithredu ar ôl Arolygiad** | Cynllun sy'n nodi'r camau y mae angen eu cymryd yn dilyn arolygiad gan Estyn. |
| **Polisïau dileu a chodi tâl** | Datganiad o bolisi'r ysgol sy'n ymwneud â dileu a chodi tâl am unrhyw wasanaeth ychwanegol neu fwyd neu lety y caniateir codi tâl amdanynt, er enghraifft gwersi cerddoriaeth gwibdeithiau. |
| **Amserau sesiynau'r ysgol** | Manylion am sesiynau'r ysgol a dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgol. |
| **Anghenion Addysgol Arbennig** | Gwybodaeth am bolisi'r ysgol ynghylch darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. |
| **Cynlluniau Mynediad** | Cynllun ysgrifenedig yn ymdrin â gwelliannau mynediad i'r ysgol i ddisgyblion sydd ag anableddau (o fis Ebrill 2004). |
| **Polisi Iechyd a Diogelwch** | Datganiad ysgrifenedig o bolisi cyffredinol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch gweithwyr (ac eraill) yn y gwaith a'r trefniadau ar gyfer cyflawni'r polisi. |
| **Polisi Amddiffyn Plant** | Datganiad o egwyddorion cyffredinol ynghylch trefniadau Amddiffyn Plant (o fis Mawrth 2004). |
| **Trefn gwyno** | Datganiad o'r gweithdrefnau i ddelio â chwynion. |
| **Arfarnu Staff** | Datganiad o'r gweithdrefnau yn ymwneud ag arfarnu staff a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethu. |
| **Cwyno, Disgyblaeth ac Ymddygiad Staff** | Datganiad o'r weithdrefn ar gyfer rheoleiddio ymddygiad a disgyblaeth staff yr ysgol a gweithdrefnau y gall y staff eu |

## 6. Adborth a Chwynion

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych ynghylch y cynllun. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynllun cyhoeddi hwn neu os oes angen cymorth pellach arnoch neu os ydych chi am gwyno, dylid cyfeirio hyn yn y lle cyntaf at y Pennaeth.

Os nad ydych yn fodlon ar y cymorth a gewch neu os nad ydym yn llwyddo i ddatrys eich cwyn ac os ydych yn teimlo bod angen gwneud cwyn ffurfiol, dylid cyfeirio hyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma'r sefydliad sy'n sicrhau cydymffurfiad â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac sy'n delio â chwynion ffurfiol. Gellir cysylltu ag ef yn:

Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

neu

Llinell Ymholiadau/Gwybodaeth: 01625 545 745
E-bost: publications@ic-foi.demon.co.uk

# Siart Lif y Cynllun Cyhoeddi Model Gwybodaeth – camau i'w cymryd i fabwysiadu model

Mae'r Corff Llywodraethu'n cytuno i fabwysiadu model a gymeradwywyd

**Ydy**

Cofnodi'r penderfyniad yng nghofnodion y corff llywodraethu. Dylid ystyried a godir tâl am unrhyw ddogfennau.

↓

Llenwi'r cynllun model fel a ganlyn:

- nodi'r holl fanylion cyswllt a manylion yr ysgol.
- nodi manylion cyfeiriad gwefan, pan fo hynny'n berthnasol.
- nodi arwydd £ yn y bocs disgrifio (ar ôl disgrifiad o'r ddogfen) pan fydd hi'n bosibl y codir tâl am eitem.
- dylai ysgolion cynradd ddileu cyfeiriadau at unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag ysgolion uwchradd yn unig.
- rhestru unrhyw ddogfennau ychwanegol yn Atodiad A.

**Nac ydy**

Cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a dilyn y weithdrefn a nodir yn llyfryn y Comisiynydd Gwybodaeth *Cynlluniau Cyhoeddi – Dogfennau Cymeradwyo ac Arweiniad a Methodoleg*.

↓

Cynllunio a llunio cynllun pwrpasol a'i gyflwyno gyda holiadur cymeradwyo wedi'i lenwi er mwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth ei gymeradwyo.

↓

Ystyried adolygu system rheoli cofnodion yr ysgol trwy gynnal archwiliad i helpu'r ysgol i ymateb i unrhyw gais.

↓

Cyhoeddi'r cynllun ar bapur [ac ar wefan yr ysgol os oes gan yr ysgol un] erbyn 29 Chwefror 2004.

↓

Codi ymwybyddiaeth o fodolaeth y cynllun. Ystyried cyfeirio ato yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr, cylchlythyr yr ysgol ac ar wefan yr ysgol os oes gwefan gan yr ysgol.

↓

Ymateb i geisiadau am ddogfennau a restrir yn y cynllun.